Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Argraffiad 2010 o Ddogfen Gymeradwy J (Offer hylosgi a systemau storio tanwydd) sy'n ymgorffori newidiadau a wnaed yn 2010 a 2024 (WGC 004/2024)

Cylchlythyr i gyhoeddi bod y diwygiadau i ddogfen gymeradwy J perthynas â larymau carbon monocsid wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 4 Hydref 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 4 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cylchlythyr rheoliadau adeiladu

Cylchlythyr

Cymhwyso'r ddeddf

Newidiadau i'r Ddogfen Gymeradwy

Newidiadau bychain

Dogfennau cymeradwy

Trefniadau trosiannol

Cyffredinol

Ymholiadau

Atodiad A

Atodiad B



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cylchlythyr rheoliadau adeiladu

**Rhif y Cylchlythyr**: WGC 004/2024

**Dyddiad cyhoeddi**: 04/10/2024

**Statws**: Er gwybodaeth

**Teitl**: Argraffiad 2010 o Ddogfen Gymeradwy J (Offer hylosgi a systemau storio tanwydd) sy'n ymgorffori newidiadau a wnaed yn 2010 a 2024

**Cyhoeddwyd gan:** Mark Tambini, Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu

**Wedi'i gyfeirio at:**

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor y Diwydiant Adeiladu
Fforwm Personau Cymwys

**I'w anfon ymlaen at:**

Swyddogion Rheoli Adeiladu yr Awdurdodau Lleol
Aelodau o'r Senedd

**Crynodeb:**

Cylchlythyr yw hwn i gyhoeddi bod y newidiadau mewn perthynas â larymau carbon monocsid i Ddogfen Gymeradwy J wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi, ac i dynnu sylw at y darpariaethau trosiannol ar gyfer y newidiadau.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Tîm Rheoliadau Adeiladu
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Llinell uniongyrchol: 0300 060 4400
E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**
Gwefan: **adeiladu a chynllunio**

# Cylchlythyr

## Deddf Adeiladu 1984

### Rheoliadau Adeiladu 2010
### Newidiadau i Ddogfen Gymeradwy

#### Cyflwyniad

1. Ar ran Gweinidogion Cymru, rwy'n tynnu'ch sylw at y newidiadau i argraffiad 2010 o Ddogfen Gymeradwy J (offer hylosgi a systemau storio tanwydd) sy'n ymgorffori newidiadau 2010 a 2024.

2. Pwrpas y Cylchlythyr hwn yw tynnu'ch sylw at arweiniad newydd i gefnogi paragraff J3 o Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010 - "Rhybudd bod carbon monocsid wed gollwng".

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cymhwyso'r ddeddf

3. Mae'r newidiadau a wnaed i'r Ddogfen Gymeradwy yn ymwneud ag adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru.

## Newidiadau i'r Ddogfen Gymeradwy

4. Mae Dogfen Gymeradwy J wedi'i newid i gynnwys arweiniad sef lle gosodir offer hylosgi sefydlog newydd neu gyfnewid sydd â ffliw, o fath sy'n defnyddio unrhyw danwydd (olew, nwy (gan gynnwys LPG) a solet) mewn annedd (gan gynnwys ffyrnau sefydlog â ffliw), dylid darparu larwm carbon monocsid.

5. Adran 1: Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud yn gyffredinol â gosodiadau hylosgi, bellach yn cynnwys arweiniad ym mharagraffau newydd 1.24 i 1.30 sy'n ymdrin â darparu larymau carbon monocsid lle gosodir offer hylosgi sefydlog â ffliw o fath sy'n defnyddio unrhyw danwydd.

6. Mae hyn yn golygu bod paragraffau 2.34 i 2.36 o argraffiad blaenorol Dogfen J gyda newidiadau 2010, wedi'u dileu. Roeddynt yn delio â larymau carbon monocsid ar gyfer offer sy'n llosgi tanwydd solet yn unig, felly mae'r paragraffau newydd wedi'u disodli.

7. I grynhoi, mae angen larwm carbon monocsid i rybuddio preswylwyr am bresenoldeb carbon monocsid yn y canlynol:

(i) Ym mhob man (gan gynnwys mannau cysylltiedig er enghraifft garejis ac atigau) lle ceir offer hylosgi sefydlog (gan gynnwys offer hylosgi sefydlog â ffliw a ddefnyddir ar gyfer coginio), ac

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

(ii) mewn llety risg uchel, hynny yw, ystafell wely neu brif ystafell fyw lle ceir ffliw sy'n gwasanaethu offer hylosgi yn mynd drwy'r ystafelloedd hynny.

8. Dylai larymau carbon monocsid gydymffurfio â BS EN 50291-1:2018 ac ymgorffori seinydd a chael eu pweru gan fatri sydd wedi'i ddylunio i weithio am oes weithredol y larwm. Dylai'r larwm gynnwys dyfais rhybuddio i rybuddio defnyddwyr pan fydd oes y larwm ar fin dod i ben.

9. Mae canllawiau ac argymhellion ar osod larymau carbon monocsid ar gael yn BS EN 50292:2023 ac yng nghyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.

## Newidiadau bychain

10. Yn ogystal â'r ailrifo sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r newidiadau a ddisgrifir uchod, rydym hefyd yn gwneud newidiadau i gywiro mân wallau yn Nogfen Gymeradwy J i gynnwys rhif OS cywir a darn o baragraff J3 o Atodlen 1 yr OS hwnnw.

## Dogfennau cymeradwy

11. Mae Atodiadau B ac C i'r Cylchlythyr hwn yn rhoi'r Hysbysiad o Gymeradwyaeth i'r Ddogfen Gymeradwy ddiwygiedig a Hysbysiad Tynnu Cymeradwyaeth yn Ôl i argraffiadau blaenorol o'r Ddogfen Gymeradwy, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Trefniadau trosiannol

12. Daw'r newidiadau a wnaed i Ddogfen Gymeradwy J i rym ar 6 Ionawr 2025 ac eithrio fel a ganlyn.

13. Bydd argraffiad 2010 o Ddogfen Gymeradwy J sy'n ymgorffori rhagor o newidiadau a wnaed yn 2010, yn dal i fod yn berthnasol i'r gwaith adeiladu y mae'n ymwneud ag ef, ar yr amod:

a. bod y gwaith adeiladu wedi dechrau cyn 6 Ionawr 2025; neu

b. bod gwaith y mae -

(i) hysbysiad adeiladu ar ei gyfer wedi’i roi i awdurdod lleol cyn 6 Ionawr 2025,

(ii) hysbysiad cychwynnol ar ei gyfer wedi'i roi i awdurdod lleol ac nad yw'n ei wrthod cyn 6 Ionawr 2025,

(iii) hysbysiad diwygio ar ei gyfer wedi ei roi i awdurdod lleol ac nad yw'n ei wrthod cyn 6 Ionawr 2025, neu

(iv) cynlluniau llawn ar ei gyfer wedi'u hadneuo cyn 6 Ionawr 2025,

a bod y gwaith yn dechrau o fewn tri mis sy'n dechrau ar 6 Ionawr 2025; neu

c. nad oes angen hysbysiad ar gyfer y gwaith (gweler rheoliad 12(6) o Reoliadau Adeiladu 2010) a bod y gwaith yn dechrau o fewn tri mis sy'n dechrau ar 6 Ionawr 2025.

Sylwch fod gan "hysbysiad adeiladu", "hysbysiad cychwynnol", "hysbysiad diwygio" a "chynlluniau llawn" yr ystyron a roddir iddynt yn rheoliad 2 o Reoliadau Adeiladu 2010.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyffredinol

14. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu. Yn unol ag adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984, mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r newidiadau.

15. Nid yw'r cylchlythyr hwn yn rhoi cyngor ar y gofynion technegol yn Rheoliadau Adeiladu 2010. Ymdrinnir â'r materion hynny yn y Ddogfen Gymeradwy sy'n cael ei newid.

## Ymholiadau

Anfonwch unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Mark Tambini
Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**

Yn gywir,

**Mark Tambini**
**Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Atodiad A

## Deddf Adeiladu 1984

### Hysbysiad cymeradwyo i newid dogfennau sy'n rhoi arweiniad ymarferol ar ofynion rheoliadau adeiladu 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer eu pwerau o dan adran 6, wedi cymeradwyo'r newidiadau i'r ddogfen a enwir isod at ddiben rhoi arweiniad ymarferol ar ofynion Rheoliadau Adeiladu 2010 a enwir isod.

Daw'r gymeradwyaeth i rym ar 6 Ionawr 2025 ac eithrio mewn perthynas â'r gwaith fydd eisoes wedi'i ddechrau cyn y dyddiad hwnnw; neu mewn perthynas â gwaith y rhoddwyd hysbysiad adeiladu, hysbysiad cychwynnol neu hysbysiad diwygio ar ei gyfer neu bod cynlluniau llawn wedi'u hadneuo cyn y dyddiad hwnnw a chyn belled â bod y gwaith yn dechrau o fewn tri mis i'r dyddiad hwnnw; neu mewn perthynas â gwaith lle nad oes angen hysbysiad (gweler rheoliad 12(6) o Reoliadau Adeiladu 2010) ar yr amod bod y gwaith yn dechrau o fewn tri mis i'r dyddiad hwnnw.

#### Dogfen

Argraffiad 10 o Ddogfen Gymeradwy J (Offer Hylosgi a systemau storio tanwydd) yn ymgorffori newidiadau a wnaed yn 2010 a 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**GofynionvRheoliadau Adeiladu 2010 y cymeradwyir y ddogfen hon mewn cysylltiad â hwy**

Rhan J, Atodlen 1

# Atodiad B

## Deddf Adeiladu 1984

### Hysbysiad tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer dogfennau sy'n rhoi arweiniad ymarferol ar ofynion rheoliadau adeiladu 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer eu pwerau o dan adran 6(5) a 5(A), wedi tynnu yn ôl y gymeradwyaeth i'r ddogfen a enwir isod at ddiben rhoi arweiniad ymarferol ar y gofynion yn Rhan J o Atodlen 1 o Reoliadau Adeiladu 2010.

Daw'r hysbysiad tynnu cymeradwyaeth yn ôl i rym ar 6 Ionawr 2025 ac eithrio mewn perthynas â'r gwaith fydd eisoes wedi'i ddechrau cyn y dyddiad hwnnw; neu mewn perthynas â gwaith y rhoddwyd hysbysiad adeiladu neu hysbysiad diwygio ar ei gyfer neu bod cynlluniau llawn wedi'u hadneuo cyn y dyddiad hwnnw a chyn belled â bod y gwaith yn dechrau o fewn tri mis i'r dyddiad hwnnw; neu mewn perthynas â gwaith lle nad oes angen hysbysiad (gweler rheoliad 12(6) o Reoliadau Adeiladu 2010) ar yr amod bod y gwaith yn dechrau o fewn tri mis i'r dyddiad hwnnw.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Dogfen

Argraffiad 2010 o Ddogfen Gymeradwy J (Offer Hylosgi a systemau storio tanwydd) yn ymgorffori newidiadau 2010.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/argraffiad-2010-o-ddogfen-gymeradwy-j-offer-hylosgi-systemau-storio-tanwydd-syn-ymgorffori-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.